PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 6

# Y Cyngor: Aelodau'r Senedd

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 3.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 6
# Y Cyngor: Aelodau'r Senedd

1. Yn unol â pharagraff 9.2 y Siarter, bydd dau aelod o'r Senedd ar y Cyngor.

2. Y cyfnod arferol yn y swydd fydd pedair blynedd. Mae'r unigolyn yn gymwys i'w ailbenodi fel arfer am un cyfnod arall, o hyd at bedair blynedd, ac yna bydd yn anghymwys i'w ailethol eto yn yr un categori aelodaeth nes bydd cyfnod o bedair blynedd wedi mynd heibio.

3. Trefn Benodi

    a. Pan fo sedd yng nghynrychiolaeth aelod a enwebir gan y Senedd ar fin dod yn wag, bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn hysbysu holl aelodau'r Senedd o hynny ac yn galw am enwebiadau.

    b. Bydd cynigydd ac eilydd yn llofnodi pob enwebiad a anfonir at Ysgrifennydd y Brifysgol, a chyda phob enwebiad, anfonir datganiad gan yr ymgeisydd neu ar ei ran ef/ei rhan hi, ynglŷn â pharodrwydd i wasanaethu.

    c. Os ceir mwy nag un enwebiad, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeisydd sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag.

        d. Os cynhelir y bleidlais yn bennaf trwy ddulliau electronig, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn trefnu bod aelodau'r Senedd yn gofyn am bapur pleidleisio.

        e. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn penodi dau archwiliwr i etholiad trwy bleidlais, a bydd o leiaf un ohonynt naill ai'n aelod annibynnol o'r Cyngor neu'n aelod staff academaidd.

        f. Gwahoddir un cynrychiolydd o bob un o'r undebau llafur cydnabyddedig i weithredu fel arsylwyr yn ystod cyfrif y papurau pleidleisio a gwirio unrhyw bleidleisiau a fwriwyd yn electronig.

    g. Ni fydd unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol, fel y nodir yn Ordinhad 16, yn gymwys i'w enwebu.

4. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

5. Ar wahân i'r darpariaethau uchod, pennir dull yr etholiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol.

6. Os daw unrhyw sedd yn wag dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull cyffelyb i'r uchod. Bydd unrhyw un a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o'r tymor.